BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS GWYNEDD AC YNYS MÔN

**Dydd Gwener, 6 Mawrth 2020, 10-12:30**

**Siambr Hywel Dda, Caernarfon**

Presennol: -

| **ENW** | **SEFYDLIAD** |
|---|---|
| Emyr Williams (EW) | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |
| Dilwyn Williams (DOW) | Cyngor Gwynedd |
| Anwen Morgan (AM) | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Ffion Johnstone (FfJ) | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Llion Jones (LlJ) | Prifysgol Bangor |
| Sioned Rees (SR) | Llywodraeth Cymru |
| Sian Williams (SW) | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Bethan Russell Williams (BRW) | Mantell Gwynedd |
| Shan Morris (SM) | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| Richie Green (RG) | Heddlu Gogledd Cymru |
| Ffrancon Williams (FfW) | Adra |
| Cyng. Llinos Medi Huws (LlMH) | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Sharon Williams (ShW) | Gwasanaeth Prawf |
| Aled Jones-Griffith (AJG) | Grŵp Llandrillo Menai |

Yn mynychu: -

| | |
|---|---|
| Nonn Hughes (NH) | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn |
| Sophie Ann Hughes (SAH) | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn |
| Sian Lloyd Roberts (SLlR) – Eitem 4 | Cyngor Gwynedd |
| Catrin Thomas (CT) – Eitem 5 | Cyngor Gwynedd |
| Alwyn Rhys Jones (AJ) – Eitem 5 | Cyngor Sir Ynys Môn |

Ymddiheuriadau: -

| | |
|---|---|
| Siobhan Adams | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Simon Dean | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Iwan Davies | Prifysgol Bangor |
| Sian Purcell | Medrwn Môn |
| Cyng. Dyfrig Siencyn | Arweinydd Cyngor Gwynedd |
| Dewi Wyn Jones | Cyngor Gwynedd |

**EITEM 1 – CROESO A CHYFLWYNIADAU**

Croesawyd Aled Jones-Griffith, Llion Jones a Sharon Williams yn aelodau newydd o amgylch y bwrdd.

**EITEM 2 – CYLCH GORCHWYL – EITEM SEFYDLOG**

Dim i'w nodi.

**EITEM 3 – COFNODION (I'W CYMERADWYO) A MATERION YN CODI O GYFARFOD 11/12/19**

Cadarnhawyd fod y cofnodion yn gywir. Dyma grynodeb o'r pwyntiau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf:

1. Catherine Roberts i rannu adroddiad craffu'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol unwaith y flwyddyn, gydag ambell esiampl o achosion sy'n cyfleu'r stori o amgylch yr hyn sy'n digwydd. – wedi cwblhau

2. Catherine Roberts i wneud y cyswllt gyda Helen Munroe yn y Brifysgol mewn perthynas â'r Bwrdd Trais yn erbyn Merched. – wedi cwblhau

3. Sefydliadau i ystyried a oes modd cynnig rhagor o safleoedd ar fyrder – i'w drafod yn rhan o adroddiad yr is-grŵp Cartrefi i bobl Leol

4. Ffrancon Williams i adrodd yn ôl i'r BGC mewn perthynas â'r trefniant o Bartneriaethau Tai a'r is-grŵp - i'w drafod yn rhan o adroddiad yr is-grŵp Cartrefi i bobl Leol

5. Is-grŵp Iaith Gymraeg i ystyried y ffordd ymlaen i edrych ar brosiect derbynfeydd – i'w drafod yn rhan o adroddiad yr is-grŵp Iaith Gymraeg

6. Sophie i gylchredeg diweddariad BGC Conwy a Dinbych mewn perthynas â'u haddewidion cymunedol – wedi digwydd fel rhan o'r pecyn yma (eitem 9 – gohebiaeth)

7. Sian Williams a Nonn Hughes i wneud gwaith i fapio ar ba lefel ddylid trafod wahanol faterion newid hinsawdd – yn rhan o adroddiad yr is-grŵp Newid Hinsawdd

8. Sian Williams ac Huw Williams (Ymgynghoriaeth Gwynedd) i anfon llythyr y BGC i Mark Drakeford cyn ei gyfarfod gyda'r Comisiynydd. – ymateb i'r llythyr fel rhan o'r ohebiaeth (eitem 9).

9. Siobhan Adams i gyflwyno cynnig er mwyn derbyn cytundeb y Bwrdd i gydweithio'n well ym maes plant. – i'w gyflawni yng nghyfarfod mis Mehefin y Bwrdd

10. Trefnu cyflwyniad gan yr is-grŵp iechyd meddwl, gan ganolbwyntio ar ehangu'r rhaglen canolfannau ICAN. – i'w drefnu yng nghyfarfod mis Mehefin y Bwrdd

11. Nonn a Sophie i ystyried sut orau i sicrhau cyfle i aelodau'r Bwrdd gael eu hatgoffa o gyfeiriad y gwaith ym maes iechyd a gofal. – rhan o adroddiad yr is-grŵp Iechyd a Gofal Integredig

12. Sian Williams i roi cyflwyniad i'r BGC ar waith ymgysylltu Cyfoeth Naturiol Cymru. – yn hytrach na chyflwyniad, Tîm Cefnogi'r BGC i gylchredeg gwybodaeth.

13. Y sefydliadau sydd heb gyflwyno eu blaenoriaethau strategol i wneud hynny'n y cyfarfod nesaf. – ar yr agenda

14. Mynegi diddordeb yng Nghynllun Graddedigion y Llywodraeth – wedi cwblhau

15. Gwahodd Rheolwr Rhaglen y Bartneriaeth Sgiliau, Sian Lloyd Roberts, i roi cyflwyniad – ar yr agenda

16. Arweinwyr yr is-grwpiau i ystyried y Cynllun Llesiant wrth lunio adroddiadau cynnydd i gyfarfod mis Mawrth, er mwyn bwydo i Adroddiad Blynyddol y Bwrdd. – Tîm Cefnogi'r BGC yn cydweithio ag arweinyddion yr is-grwpiau

17. Nonn i wahodd cyflwyniadau gan yr Awdurdodau Lleol ynghylch eu gwaith ym maes tlodi. – ar yr agenda

1. Siobhan Adams i gyflwyno cynnig er mwyn derbyn cytundeb y Bwrdd i gydweithio'n well ym maes plant, gan ei bod yn anodd symud ymlaen yn y maes gyda'r bresenoldeb arferol yn yr is-grŵp (sef iechyd a gwasanaethau cymdeithasol).
2. Tîm Cefnogi'r BGC i drefnu cyflwyniad gan yr is-grŵp iechyd meddwl, gan ganolbwyntio ar ehangu'r rhaglen canolfannau ICAN.

**EITEM 4 – CYFLWYNIAD RHAGLEN PARTNERIAETH SGILIAU RHANBARTHOL**

Cyflwynodd SLIR wybodaeth i'r BGC ynglŷn â'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol. Nodwyd fod y Llywodraeth wedi cydnabod yr angen i blethu'r agenda sgiliau gyda'r hyn sy'n mynd ymlaen yn economaidd yn y rhanbarth. Noder fod gan y Bartneriaeth rôl benodol i ddylanwadu ar cwricwlwm addysg bellach, prentisiaethau a dysgu trwy waith.

Rhannwyd copïau cryno o'r Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth gydag aelodau'r Bwrdd a nodwyd y byddent yn cwblhau arolwg sgiliau eto yn y 2 fis nesaf er mwyn parhau â'r ymgysylltu.

Os am fwy o wybodaeth am waith y Bartneriaeth gellid eu dilyn ar Trydar @SkillsNWales, ymweld â gwefan Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (northwaleseab.co.uk) neu gysylltu â Rheolwr Rhaglen y Bwrdd ar sianlloydroberts@gwynedd.llyw.cymru.

Diolchwyd i Siân am ei chyflwyniad, a gofynnwyd am sylwadau ynghylch datblygu clwstwr sector gyhoeddus. Holwyd a fyddai'r cynllun yn diwallu anghenion ardaloedd diwylliannol ac nid gwledig fel ni, a cadarnhawyd fod y Bartneriaeth yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd llais cyflogwyr yr ardal yma a'u bod wedi sicrhau cynrychiolaeth cryf o'r Gogledd Orllewin. Nodwyd fod mwy o ymatebion i'r arolwg wedi cyrraedd o Wynedd nag o Fôn ac o'r herwydd y byddai'r Bartneriaeth yn gwerthfawrogi mewnbwn y BGC.

Gwnaethpwyd gais am adroddiad maes o law sy'n edrych yn benodol ar yr hyn sy'n digwydd i ymateb i anghenion Gwynedd a Môn yn benodol. Nododd AJW bod gwaith eisoes yn digwydd a bod Sian Lloyd Roberts yn mynychu Partneriaeth Dysgu ôl-16 lle ystyrir y negeseuon sy'n cael eu cyfleu i blant cynradd ac uwchradd am y meysydd sydd a chyfleoedd i'w cynnig y tu allan i feysydd STEM e.e. lletygarwch ac arlwyo. Nododd yr angen i ddatblygu perthynas efo ysgolion er mwyn hyrwyddo'r cyfleon gyrfaol sydd ar gael mewn sectorau penodol a cytunwyd fod 16 oed yn rhy hwyr. Nodwyd awydd i edrych sut all y sector gyhoeddus gymryd rhan yn y gwaith yma.

Cyflwynwyd y syniad hefyd o gynnal ein ffeiriau gyrfaoedd ein hunain fel BGC, ac ychwanegwyd fod hyn yn rhywbeth sydd wedi codi fel rhan o drafodaethau'r is-grŵp iaith Gymraeg ac felly y byddai'r is-grŵp yn dymuno bod yn rhan o unrhyw ddatblygiadau. Cytunwyd i aros i drafod ymhellach gyda Sian cyn penderfynu ar y ffordd ymlaen gyda'r syniad yna.

3. Tîm Cefnogi'r BGC i drefnu i Sian Lloyd Roberts, Rheolwr Rhaglen y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, ddychwelyd gydag adroddiad fwy penodol am yr hyn mae'r bartneriaeth yn ei wneud i ymateb i anghenion Gwynedd a Môn yn benodol fel fod modd ystyried y ffordd orau o gydweithio rhwng y BGC a'r Bartneriaeth i'r dyfodol.

**EITEM 5 – CYFLWYNIAD GAN Y DDAU AWDURDOD LLEOL AR EU CYNLLUNIAU YM MAES TLODI**

Derbyniwyd cyflwyniadau gan Ynys Môn a Gwynedd.

**Trafodaeth**

Cyflwynodd Nonn yr opsiynau sydd wedi eu hamlinellu yn ei hadroddiad atodedig a croesawodd awgrymiadau ynghylch i ba gyfeiriad mae'r BGC yn dymuno mynd nesaf gyda'r agenda tlodi.

Nodwyd yr angen i fod yn ofalus i sicrhau ein bod ni'n canolbwyntio ar y pethau fedrwn ni wireddu. Cynigiodd yr Awdurdodau Lleol eu bod yn cyflwyno adroddiadau cynnydd bob 6 mis er mwyn gallu tynnu aelodau eraill y BGC i mewn pan fo'r amser yn iawn ar gyfer gwneud hynny. Roedd consenswS gyda'r awgrym yma a chytundeb na ddylid sefydlu is-grwpiau lle nad oes angen.

4. Tîm Cefnogi'r BGC i drefnu i'r Bwrdd dderbyn diweddariad ar eu gwaith bob 6 mis, fel bod modd ystyried pa bryd y mae'n briodol i dynnu partneriaid i mewn.

**EITEM 6 – ADRODDIADAU AR GYNNYDD**

**Cartrefi i bobl leol – Ffrancon Williams**

**Tai Gwag** – is-grŵp yn teimlo nad ydynt yn dymuno cymryd hynny ymlaen am fod y cynghorau eisoes yn gweithredu.

**Diweddariad -** 4 safle tai arloesol ar draws Gwynedd a Môn. Prinder safleoedd dal yn broblem – cais eto i'r Bwrdd edrych am fwy o safleoedd. BIPBC wedi anfon rhestr, ond ar hyn o bryd dim byd amlwg yn cynnig ei hun. Heddlu am edrych ymhellach ar y peth wrth benderfynu beth i'w wneud efo gorsafoedd. Y brifysgol hefyd wedi cynnig un.

Nododd AJW bod Grŵp Llandrillo Menai'n dymuno isio cynnig safleoedd posib.

Nodwyd hefyd fod bwriad i edrych ar safleoedd segur lle mae hawliau cynllunio'n bodol.

Mae'r is-grŵp yn edrych ar sut mae partneriaid yn asesu hyfywedd ariannol safleoedd i geisio sicrhau fod modelau hyfywedd yn reit gyson. Nodwyd fod mwy o barodrwydd i rannu a chydweithio erbyn hyn sy'n ddatblygiad positif.

Gwnaethpwyd gais i'r awdurdodau lleol ystyried bod yn barod i rannu rhagdybiaethau o ran hyfywedd ariannol pan ddaw cais i wneud hynny, er mwyn osgoi'r posibilrwydd i safle gael ei wrthod heb fod angen oherwydd anghysondeb. Nododd AM bryderon ynghylch sensitifrwydd masnachol a nododd y byddai'n trafod â'i swyddog monitro.

Codwyd cwestiwn gan DOW ynghylch a ydym yn dyblygu yn y maes yma lle mae na bartneriaethau tai yn bodoli eisoes ac ai bwydo canfyddiadau'r bartneriaeth i lawr i strategaeth tai y cynghorau sydd ei angen. Atebodd FfW fod yr is-grŵp wedi dechrau cydweithio i weld lle allwn gyfrannu na allwn wneud fel arall a'r penderfyniad oedd i ganolbwyntio'n benodol ar dai arloesol am nad oedd y maes eto'n aeddfed. Mae modd cyflawni mwy efo llai o adnodd wrth gydweithio. Cadarnhawyd fod aelodau'r is-grŵp yn aelodau o'r partneriaethau tai hefyd ac mae gwaith yr is-grŵp yn bwydo drwodd i'w gwaith nhw. Yr is-grŵp i barhau felly oni bai eu bod yn cael cyfarwyddyd gwahanol.

5. Yn sgil y cais i Brif Weithredwyr y ddau gyngor gytuno i rannu rhagdybiaethau hyfywedd ariannol eu datblygiadau tai gyda'r is-grŵp cartrefi, angen i'r Prif Weithredwyr drafod y mater ymhellach gyda'i gilydd, o fewn eu sefydliadau, a gyda FfW fel Arweinydd yr is-grŵp.

**Yr Iaith Gymraeg – Jerry Hunter**

Yn absenoldeb yr Athro Jerry Hunter, cyflwynodd Sophie ddiweddariad yr is-grŵp iaith yn ogystal â phapur yn amlinellu cynnig prosiect derbynfeydd gan yr is-grŵp. Cytunodd aelodau'r BGC â'r cynnig a'r fethodoleg, a cydnabuwyd y gost. Nodwyd bod angen trafodaeth ynghylch ariannu, a cynigiwyd yn y man cychwyn i wneud cais am arian o'r grant rhanbarthol i gyflawni'r prosiect yma. Os na fyddai hynny'n bosib, gellid dod yn ôl i drafod ymhellach.

Nododd SR y byddai hi fel cynrychiolydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r cais fel rhywbeth a allai gynnig arfer dda gwerthfawr i Gymru gyfan.

Esboniwyd yn sgil newid mewn swydd fod yr Athro Jerry Hunter wedi gadael ei rôl fel arweinydd yr is-grŵp iaith a bod felly angen ethol arweinydd newydd. Cynigiwyd a cytunwyd y bydd Bethan Russell Williams, Mantell Gwynedd yn cymryd rôl arweinydd yr is-grŵp o hyn ymlaen.

Mynegwyd diolchadau i'r Athro Jerry Hunter am ei waith parhaus fel cynrychiolydd Prifysgol Bangor ar y BGC ers rhai blynyddoedd, a dymunwyd yn dda iddo ar ei fenter nesaf.

6. Tîm cefnogi'r BGC i ystyried sut i ariannu'r prosiect derbynfeydd gan ymchwilio i'r opsiwn o wneud cais drwy Grant Rhanbarthol y BGC yn gyntaf.

**Effaith newid hinsawdd ar lesiant cymunedau – Sian Williams**

Cyflwynodd SW ei diweddariad a nododd fod Rhan 1 o'r gweithdy i gefnogi trefniadau rhanbarthol o addasu i newid yn ein hinsawdd ac i gytuno ar ddulliau o ymgysylltu gyda'n cymunedau wedi digwydd, gyda'r ail i ddigwydd yn fuan. Bydd SW yn adrodd yn ôl ar hynny ym mis Mehefin.

Nododd SW ei bod yn mynd i gysylltu eto gyda Llywodraeth Cymru er mwyn ceisio cael arweinyddiaeth wleidyddol i ddelio â newid hinsawdd. Nododd SR fod trafodaethau wedi digwydd, bod Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi ei godi efo'r Gweinidog o ran ystyried hyn ar lefel genedlaethol ac nid yn unig fel rhan o'r strategaeth llifogydd, ond ar draws popeth.

7. Sian Williams yn adrodd yn ôl yn dilyn ail ran y gweithdy yng nghyfarfod nesa'r Bwrdd ym mis Mehefin.

8. Sian Williams i ail-godi'r angen am arweinyddiaeth wleidyddol i ddelio â newid hinsawdd gyda Llywodraeth Cymru.

**Iechyd a Gofal Integredig**

Rhannwyd gwybodaeth ynghylch gweithdy sydd wedi ei drefnu mis Ebrill a sy'n agored i holl aelodau'r BGC. Ei fwriad yw edrych ar y diffygion, y cyfleon ar gyfer integreiddio, beth sydd angen bod yn wahanol a sut allwn ni lywio hynny.

Nodwyd FfJ y byddai'n rhoi diweddariad ar waith ICAN yn y cyfarfod nesaf.

O ran mesurau'r is-grŵp, nodwyd fod gwerthusiad yn digwydd ar draws y gogledd cyn penderfynu er mwyn sicrhau ein bod yn gweithredu'n unol â'r mesurau cywir, yn hytrach na nifer o fesurau. Nododd FfJ y byddai'n adrodd i'r cyfarfod nesaf ar ddatblygiad y gwaith yma.

Mynegwyd cydnabyddiaeth gan y ddau awdurdod lleol am y gwaith hollbwysig yma.

9. FfJ i rannu gwybodaeth ynghylch y gweithdy is-grwp iechyd a gofal sy'n digwydd ar 27 Ebrill a sy'n agored i holl aelodau'r Bwrdd.

10. FfJ i ddiweddaru ar waith yr is-grŵp iechyd a gofal wrth sefydlu mesurau yng nghyfarfod mis Mehefin y Bwrdd.

**EITEM 7 - CYFLWYNIADAU SEFYDLIADAU AR EU BLAENORIAETHAU STRATEGOL**

Derbyniwyd cyflwyniadau gan Barc Cenedlaethol Eryri, Llywodraeth Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

Pwysleisiodd EW fod angen edrych mwy ar ddŵr a charbon yng nghyd-destun yr her amgylcheddol a bod lle i gydweithio ymhellach yma.

Cytunwyd y byddai'r Gwasanaeth Prawf yn rhoi cyflwyniad ym mis Mehefin yn hytrach gan fod ShW yn aelod newydd ac y bydd ganddi fwy o gyd-destun erbyn hynny.

Holodd DOW beth yw'r bwriad rŵan yn dilyn derbyn yr holl gyflwyniadau. Eglurodd Nonn bod bwriad i dîm cefnogi'r BGC gynnal ymarferiad mapio'r blaenoriaethau er mwyn darganfod cyfleon pellach i gydweithio. Cynigiodd DOW y byddai'n ddefnyddiol cynnwys rhan yn ein Cynllun Llesiant sy'n crynhoi beth sydd eisoes yn digwydd i gyfrannu at lesiant pobl Gwynedd a Môn.

11. Tîm cefnogi'r BGC i roi cyflwyniad gan y Gwasanaeth Prawf ar eu blaenoriaethau strategol ar agenda cyfarfod mis Mehefin y Bwrdd.

12. Yn dilyn yr holl gyflwyniadau gan y partneriaid ar eu blaenoriaethau strategol, tîm cefnogi'r BGC i wneud ymarferiad mapio i adnabod beth mae'r holl sefydliadau yn ei wneud tuag at flaenoriaethau'r Cynllun Llesiant y tu hwnt i waith y BGC ac i ystyried a oes angen addasu'r Cynllun Llesiant i adlewyrchu hynny.

**EITEM 8 – GOHEBIAETH**

**Diweddariad BGC Conwy a Dinbych** – cyfeiriwyd at y 'pledges' gan annog pawb i ystyried a fyddent yn rywbeth a hoffent eu hystyried.

**Remploy Cymru** – cytunwyd i'w drafod ymhellach yn yr is-grwpiau.

**EITEM 9 - HERIAU A CHYFLEON**

Brexit a Coronavirus yn heriau amlwg sy'n ein wynebu. Cytunwyd fod y cyrff cyhoeddus eisoes wrthi'n ystyried ac yn cynllunio'n barod ac nad oes angen i'r BGC ymgymryd â ffrwd gwaith ychwanegol ar hyn o bryd.

**EITEM 10 - UNRHYW FATER ARALL**

I gryfhau cyfathrebu'r Bwrdd, mae'r tîm cefnogi'n bwriadu cylchredeg newyddlen cryno i'r partneriaid ei rannu'n fewnol. Gofynnwyd i bob partner felly anfon manylion cyswllt eu swyddog cyfathrebu priodol draw at Nonn/Sophie.

Cyfeiriwyd at ffair swyddi Cymraeg Pontio ym mis Mawrth. Sophie i rannu gwybodaeth.

Nodwyd fod Richie Green yn ymddeol mis nesa ac nad oes sicrwydd pwy sy'n cymryd drosodd eto. Diolchwyd iddo ef am ei waith fel aelod o'r BGC ac i'r Heddlu a nodwyd pob dymuniad da iddo ar ei ymddeoliad.

13. Partneriaid y BGC i rannu pwyntiau cyswllt cyfathrebu eu sefydliadau gyda'r tîm cefnogi.
14. Sophie i rannu gwybodaeth am Ffair Swyddi Cymraeg Pontio Bangor.